



ADRODDIAD YMGYNGHORI

ar y Cynnig i Ehangu Ysgol Penyffordd

**Cynyddu Capasiti Ysgol Penyffordd o 315 i 375 Disgybl Llawn Amser
o 1 Medi 2023**

Mis Medi 2022

Cynnwys

Rhif	Adran	Tudalen
1	Cyflwyniad:	3
2	Y Cynnig a'r Ymgynghoriad	3
3	Digwyddiadau/Cyfarfodydd Ymgynghori	4
4	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	4
5	Canfyddiadau'r Cyngor Ysgol	5
6	Ymateb Estyn	5
7	Ffurflenni Ymateb Safonol	6
8	Ymateb Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol	8
9	Ymateb y Llywodraethwyr	8
10	Y camau nesaf	8
Atodiad A	Rhestr o'r rhai a dderbyniodd y Ddogfen Ymgynghori	
Atodiad B	Ymateb Estyn i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad C	Crynodeb o faterion ac ymatebion	
Atodiad D	Ymateb CSyFF i faterion a godwyd	

Mae'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i chyhoeddi ar ffurf copi caled, os bydd arnoch eisiau copi papur neu gopi ar fformat gwahanol, er enghraifft braille neu brint bras neu os ydych eisiau help gyda'i chyfieithu i iaith wahanol, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 702188 / 704015 / 01352 704014, neu anfonwch e-bost at 21stCenturySchools@flintshire.gov.uk.

1. Cyflwyniad

1.1 Ar ddiwedd cyfnod ymgynghori ynghylch trefniadaeth ysgolion mae'n ofynnol yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru i'r cynigydd (y Cyngor) gyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw;
- ymateb i'r materion a godwyd drwy roi eglurhad pellach, diwygio'r cynnig neu wrthod y sail dros unrhyw bryderon, gan roi rhesymau i gefnogi hyn.
- nodi ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn, ac
- ymateb i ymatebion Estyn trwy roi eglurhad pellach, diwygio'r cynnig neu wrthod y sail dros unrhyw bryderon, gan roi rhesymau i gefnogi hyn.

1.2 Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori cyn gwneud unrhyw argymhelliad cysylltiedig â'r cynnig.

2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ddydd Mercher, 16 Tachwedd 2021, penderfynodd y Cabinet:

Agor cyfnod ymgynghori ffurfiol gyda rhanddeiliaid allweddol ynghylch y cynnig i gynyddu nifer y llefydd sydd ar gael yn Ysgol Penyffordd, gydag adroddiad ar hyn i'w roi gerbron y Cabinet yn y dyfodol.

2.2 Mae'r Cyngor yn bwriadu darparu'r llefydd ychwanegol drwy:

- Gynyddu capasiti Ysgol Penyffordd o'r nifer presennol o 315 o lefydd llawn amser i 375 o lefydd llawn amser, sef cynnydd hollgynhwysfawr o 60 o lefydd llawn amser o 1 Medi 2023.
- Byddai'r cynnig yn golygu bod nifer derbyniadau'r ysgol yn cynyddu o 45 i 50 disgybl fesul grŵp blwyddyn.
- Byddai'r cynnydd mewn capasiti'n cael ei ddarparu drwy ymestyn adeilad presennol yr ysgol. Y bwriad yw y byddai'r capasiti uwch yn dod yn weithredol pan fydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn 1 Medi 2023.

2.3 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion rhwng dydd Mawrth 1 Mawrth 2022 a dydd Llun 11 Ebrill 2022.

2.4 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Sir y Fflint ddydd Mawrth, 1 Mawrth 2022 a darparwyd dolen at y dogfennau ymgynghori ar gyfer rhanddeiliaid. Mae rhestr lawn o'r derbynyddion i'w gweld yn **Atodiad A**

2.5 Cyhoeddwyd hefyd fersiynau addas ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan Cyngor Sir y Fflint. Mae copïau o'r holl fersiynau o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn yr adran Moderneiddio Ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y ddolen ganlynol: -

<https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Ysgol-Penyffordd-School-Development.aspx>

- 2.6 Anfonwyd copiâu caled o'r dogfennau ymgynghori i Ysgol Penyffordd i bobl eu gweld os nad oedd ganddynt fynediad i'r wefan. Roedd copiâu caled hefyd ar gael ar gais.
- 2.7 Roedd blwch post ar gael yn Ysgol Penyffordd ar gyfer postio ymatebion i'r ymgynghoriad a'u casglu gan aelod o'r tîm Moderneiddio Ysgolion.
- 2.8 Cynhyrchodd y Cyngor ddogfen ymateb (ffurflen ymateb safonol), i gynorthwyo ac annog pobl i roi eu safbwyntiau. Roedd y ffurflen yn rhan o'r ddogfen ymgynghori a chafodd hon hefyd ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd y fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys ffurflen ymateb symlach. Cafodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ei throsi'n arolwg ar-lein gan ddefnyddio Smart Survey. Cyhoeddwyd y dolenni a Chod QR ar y wefan hefyd.
- 2.9 Derbyniodd pawb yr ymgynghorwyd â nhw e-bost gyda dolen yn eu cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol, dogfennau atodol, yn ogystal â'r ddolen i'r arolwg ar-lein ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad sef 1 Mawrth 2022.
- 2.10 Cynhyrchwyd y dogfennau yn Gymraeg a Saesneg.

3.0 Digwyddiadau/Cyfarfodydd Ymgynghori

- 3.1 Oherwydd y sefyllfa iechyd cyhoeddus ac er mwyn cyfyngu ar ledaeniad y Coronafeirws, ni chynhaliodd y Cyngor unrhyw ddigwyddiadau galw heibio cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, roedd modd cyflwyno cwestiynau dros e-bost gyda Swyddogion y Cyngor yn ymateb o fewn 7 diwrnod. Cyflwynwyd nodyn briffio i'r Llywodraethwyr.

4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 4.1 Derbyniodd y Cyngor 82 ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori drwy'r ffurflen ymgynghori safonol ar-lein. Cafwyd y ddau ymateb arall gan Estyn a disgyblion yr ysgol.
- 4.2 Trefnodd Ysgol Penyffordd ymateb i'r ymgynghoriad gan Gyngor yr Ysgol. Mae casgliadau cyfarfod y Cyngor Ysgol wedi'u nodi yn 5.0.
- 4.3 Yn ychwanegol, cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn sydd i'w weld yn llawn yn **Atodiad B**
- 4.4 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiodd pobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull cysylltu	Nifer y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad Safonol (i gyd ar-lein)	82
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	0
Llythyrau a negeseuon E-bost	0
Llythyrau a negeseuon e-bost Plant a Phobl Ifanc	0
Ymatebion y Cyngor Ysgol - ar e-bost	1
Ymatebion Llywodraethwyr yr Ysgol (dim ymateb ffurfiol gan Fwrdd y Llywodraethwyr ond llenwodd rhai Llywodraethwyr y ffurflen ar-lein ac mae'r ymatebion hyn wedi cynnwys yn y niferoedd uchod)	0

Ymateb yr Undeb	0
Ymateb Estyn	1
Ymateb AC ac AS	0
Cyfanswm	84

5.0 Ymatebion y Cyngor Ysgol

5.1 Cafodd y Pennaeth gyfarfod gyda Chyngor yr Ysgol i gael eu hadborth ar y cynnig ac anfonodd yr ymatebion hyn ar e-bost:

- Pryder na fyddai yna ddigon o doiledau. Ar hyn o bryd mae 8 toiled ar y llawr uchaf ar gyfer 6 dosbarth, neu 180 o blant CA2, ac fel y staff, mae'r plant yn meddwl y bydd angen mwy.
- Roedd y plant hefyd braidd yn bryderus ynghylch colli lle chwarae gan eu bod nhw'n defnyddio'r ardal lle bydd y darn newydd yn cael ei adeiladu yn ystod amser chwarae.
- Byddent yn hoffi pe bai'r dosbarthiadau yr un fath a'r rhai sydd ganddyn nhw'n barod, gan eu bod yn hoff o'r rhain, ac rwy'n siŵr mai dyma fydd yr achos.

5.2 Gellir gweld crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd yn **Atodiad D**

6.0 Ymatebion Estyn

6.1 Amlinellir isod y prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r cynnig ac ymateb y Cyngor iddynt. Mae ymateb llawn Estyn i'w weld yn **Atodiad G**.

Sylwadau Estyn	Ymateb CSDd:
Mae'r cynigydd wedi rhoi rhesymeg glir dros y cynnig. Mae datblygiadau tai newydd yn yr ardal wedi arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol ac mae datblygiadau arfaethedig eraill yn debygol o gynyddu'r niferoedd ymhellach. Roedd dyluniad yr ysgol, a gwblhawyd yn 2019, yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Mae'r estyniadau eisoes wedi'u cymeradwyo drwy'r broses gynllunio.	Amherthnasol
Mae Cyngor Sir y Fflint wedi dynodi tarfu posibl ar yr ysgol a'r gymuned tra bydd y gwaith adeiladu'n digwydd fel gwendid yn y cynnig. Tra bo'r cynnig yn nodi y bydd yr awdurdod lleol yn lliniaru hyn drwy wneud y gwaith a fydd yn tarfu fwyaf yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw'n rhoi digon o wybodaeth ddefnyddiol i ddangos sut y bydd yn sicrhau bod y gwaith yn tarfu cyn lleied â phosib ar yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae'r cynnig yn dynodi pum risg arall cysylltiedig â'r opsiwn a ffeirir ac mae mesurau lliniaru rhesymol ar gyfer pob un.	Mae gan y cyngor raglen foderneiddio ysgolion fawr ar y gweill sy'n golygu fod ganddo brofiad o ddarparu prosiectau adeiladu ar safleoedd ysgolion gweithredol yn llwyddiannus. Bydd unrhyw waith adeiladu'n cael ei reoli'n effeithiol wrth i'r cwricwlwm llawn gael ei ddarparu a bydd diogelwch a safonau diogelu'n cael eu cynnal. Bydd y cwmni adeiladu'n gweithio mewn partneriaeth ag Uwch Dîm Rheoli'r ysgol i leihau'r tarfu y bydd y gwaith yn ei achosi o ddydd i ddydd hyd yr eithaf. Rhagwelir y bydd y

	gwaith a fyddai'n tarfu fwyaf ar yr ysgol yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol.
Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'n dweud nad yw'r awdurdod lleol yn credu y bydd y cynnig yn effeithio'n fawr ar drefniadau teithio gan na fydd y llwybrau cerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn newid ac oherwydd bod rhai eisoes wedi'u gwella, ac mae nifer o ddisgyblion yn byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol.	Amherthnasol
Mae Cyngor Sir y Fflint yn cyfeirio at ei uchelgeisiau a'i gamau i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn derbyn na fydd y cynnig hwn yn darparu ar gyfer rhagor o lefydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.	Amherthnasol
Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn Ysgol Penyffordd yn ddigonol. Maent yn cyfeirio at ddyfarniadau adroddiad diweddaraf Estyn yn 2015. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi gwybodaeth ddiweddarach i gefnogi'r cynigion, er enghraifft barn y consortiwm rhanbarthol ynghylch safonau ac ansawdd presennol yr addysg, yn cynnwys safonau lles, arweinyddiaeth a rheoli.	Safbwynt y Consortiwm Gwella Ysgolion Rhanbarthol: Mae Ysgol Penyffordd yn dal i berfformio'n gryf, gan adeiladu ar ganlyniadau arolwg Estyn 2015.
Gan fod y cynnig yn cynnwys creu dosbarth cyfnod sylfaen a dosbarth CA2 ychwanegol heb unrhyw newidiadau arwyddocaol i arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol mae'n rhesymol disgwyl na fydd unrhyw effaith arwyddocaol ar safonau, lles, addysgu, gofal, cefnogaeth nac arweiniad yn yr ysgol. Mae hefyd yn rhesymol cymryd y bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau fel y mae ar hyn o bryd.	Bydd, fe fydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn aros yr un fath.

6.2 Mae ymateb Estyn yn nodi ei farn y bydd y cynnig yn ôl pob tebyg yn cynnal y lefelau presennol o safonau, lles, addysgu neu ofal, cymorth ac arweiniad.

7.0 Ffurflenni Ymateb Safonol

7.1 Cafodd y ffurflen ymateb safonol ei chynllunio i sefydlu:

- ym mha rinwedd yr oedd ymatebwyr yn ymateb;

- a oedd pobl o blaid y cynnig ai peidio ac unrhyw sylwadau yr oeddent yn dymuno eu gwneud am hyn;
- yr effaith ar gyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- a oedd pobl yn dymuno cael eu hysbysu ynghylch cyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori.

7.2 Ar y ffurflenni ymateb, gofynnwyd i bobl gadarnhau a oeddent yn ymateb fel disgybl, rhiant, llywodraethwr, athro, staff cymorth, preswlydd lleol neu rywun arall. Amlinellir manylion yr ymatebwyr yn **Atodiad C**

7.3 Roedd dros hanner yr ymatebion - 64%, gan rieni /gofalwyr/ gwarcheidwaid presennol a darpar rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid. Roedd 71% o'r ymatebion gan bobl uniongyrchol gysylltiedig ag Ysgol Penyffordd.

7.4 Roedd 73% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig O'r rhai hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig roedd 13 yn rhieni/gofalwyr presennol ac 8 yn aelodau o'r gymuned. Roedd yr holl ymatebwyr cysylltiedig â'r ysgol, h.y. staff/llywodraethwyr yn cytuno â'r cynnig.

7.5 Roedd yr ymatebwyr yn gallu rhoi sylwadau ychwanegol ynglŷn â pham yr oeddent neu nad oeddent yn cefnogi'r cynnig. Mae dadansoddiad o amllder y materion sy'n cael eu codi yn yr adran sylwadau ynghyd a sylwadau Estyn a BIPBC i'w gweld isod. Mae'r ymatebion wedi'u grwpio'n gategoriâu y dylai cyrff perthnasol eu hystyried wrth arfer o swyddogaethau o baratoi a chyhoeddi cynigion sefydliadau ysgol neu eu cymeradwyo/pennu.

Ymatebion y rhai yr ymgynghorwyd â hwy	Nifer a Dderbyniwyd
1. Adnoddau ar gyfer addysgu a goblygiadau ariannol eraill	
<ul style="list-style-type: none"> • Pam na chafodd y dosbarthiadau ychwanegol hyn eu cynnwys yn y cynlluniau adeiladu gwreiddiol er mwyn arbed costau? 	15
2. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r llefydd ychwanegol yn wirioneddol angenrheidiol gan fod y pentref yn tyfu • Mae'n bwysig bod disgyblion yn gallu mynd i'r ysgol yn eu pentref eu hunain. • Mae angen mwy o le yn y Cyfnod Sylfaen 	14
3. Effaith Gymunedol	
<ul style="list-style-type: none"> • Problemau parcio/tagfeydd yn y strydoedd cyfagos/mannau gollwng plant • Problemau traffig a llygredd aer posibl (Ymatebion BIPBC) • Cyfleoedd Teithio Llesol • Sefyllfaoedd traffig peryglus • Mynediad i'r ysgol 	12

<ul style="list-style-type: none"> Tarfu ar breswylwyr yn ystod y gwaith 	2
<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu maint yr ysgol/pentref Yr effaith ar yr ysgol uwchradd leol 	5
4. Yr effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg	
<ul style="list-style-type: none"> Pryderon ynghylch maint dosbarthiadau ac argaeledd staff addysgu ac adnoddau Tarfu ar addysg disgyblion Sut fydd y tarfu y bydd y gwaith adeiladu'n ei achosi'n cael ei liniaru o ddydd i ddydd? (Ymateb Estyn) Effaith yr estyniad ar fynediad i le gwyrdd (ymateb BIPBC) Effaith yr estyniad ar le a chapasiti arlwyio a bwyta. Gwybodaeth ddiweddarach i gefnogi'r cynigion, barn y consortiwm rhanbarthol ynghylch safonau ac ansawdd presennol yr addysg, yn cynnwys safonau lles, arweinyddiaeth a rheolaeth. (Ymateb Estyn) Gan fod y cynnig yn cynnwys creu dosbarth cyfnod sylfaen a dosbarth CA2 ychwanegol heb unrhyw newidiadau arwyddocaol i arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol mae'n rhesymol disgwyl na fydd unrhyw effaith arwyddocaol ar safonau, lles, addysgu, gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn yr ysgol. (Ymateb Estyn) 	11
<ul style="list-style-type: none"> A ellid rhoi ystyriaeth i wneud defnydd o'r hen ysgol yn ffordd Penymynydd, Penyffordd ar gyfer plant Derbyn? Byddai ysgol newydd yn ddewis amgen, gan fod ysgolion cynradd yn ffynnu pan maen nhw'n cael eu cadw'n fach. 	2
5. Yr Effaith ar Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg	
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r ymdrechion i hybu addysg iaith Gymraeg barhau ac mae hybu'r iaith Gymraeg yn hollbwysig Mae Cyngor Sir y Fflint yn cyfeirio at ei uchelgeisiau a'i gamau i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn derbyn na fydd y cynnig hwn yn darparu ar gyfer rhagor o lefydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. (Ymateb Estyn) 	4
6. Yr effaith ar Gydraddoldeb/Gwrthdodi	
<ul style="list-style-type: none"> Dim sylwadau i'w nodi. 	0

7.6 Mae dadansoddiad cryno o'r ymatebion a gafwyd drwy'r ffurflen ymateb safonol wedi'i nodi yn **Atodiad C**, gellir gweld ymatebion y Cyngor i'r rhain yn **Atodiad D**

8.0 Ymateb Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol

8.1 Ni chafwyd ymatebion gan AC/AS

9.0 Ymateb y Llywodraethwyr

- 9.1 Derbyniwyd cyfanswm o 8 ymateb gan Lywodraethwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd yr holl Lywodraethwyr a gwblhaodd y ffurflen ymgynghori safonol yn cefnogi'r cynigion.

10 Y Camau Nesaf

- 10.1 Cyfarfu Aelodau Cabinet Cyngor Sir y Fflint ar 12 Gorffennaf 2022 i drafod yr Ymgynghoriad arfaethedig ar ehangu Ysgol Penyffordd. Ar ôl derbyn y wybodaeth a gasglwyd drwy'r Ymgynghoriad, penderfyniad y Cabinet oedd parhau â'r Hysbysiad Statudol ar gyfer penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod lle mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn byddai angen i'r Cabinet ystyried adroddiad arall yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a gafwyd a phenderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Ni fyddai unrhyw sylwadau a wnaed yn erbyn y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau. Pe bai unrhyw ymgynghorai'n dymuno gwrthwynebu byddai'n rhaid iddynt wneud hynny yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Bydd gwybodaeth am sut i wneud hyn wedi'u nodi'r glir ar yr Hysbysiad Statudol maes o law.

ATODIAD A

Dogfennau Ymgynghori (fersiynau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc); Asesiad Cludiant, yr Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, Asesiad o Effaith ar y Gymuned, Rhestr Derbynyddion

Anfonwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol hon at amrywiaeth eang o ymgynghoreion gan gynnwys:

Gofyniad o dan God Trefniadaeth 011/2018	Bydd yn cael ei ddsbarthu i
Y Gymuned Ysgol	Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Penyffordd. Disgyblion Ysgol Penyffordd Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid (a ble bynnag bosibl darpar rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid) plant sy'n mynd i Ysgol Penyffordd. Corff Llywodraethu Ysgol Penyffordd.
Awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion;	Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig
Unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli disgyblion â datganiad ynddi;	
Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio wedi'i lleoli;	Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru Esgobaeth yr Eglwys Gatholig
Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;	
Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, gan gynnwys rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion wedi'u dadleoli.	Corff Llywodraethu ysgol Ioan Fedyddiwr Corff Llywodraethu Ysgol Derwen, Higher Kinnerton.
Corff Llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt.	Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Castell Alun Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Elfed
Gweinidogion Cymru.	
Aelodau Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	AS AC
Estyn.	Prif Arolygwr Addysg a Hyfforddiant Yng Nghymru
Undebau llafur staff addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Cynrychiolwyr NASUWT, NEU; UCAC, ASCL; UNSAIN
Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol.	Cynghorydd GwE Ysgol Penyffordd
Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol.	
Comisiynydd Heddlu a Throsedd yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Unrhyw gyngor cymuned neu gyngor tref ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei	Cyngor Cymuned Penyffordd

gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion	
Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol).	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y gallai'r cynnig effeithio arnynt;	Meithrinfa Stepping Stones Meithrinfa Hope Green
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os yn berthnasol.	Mudiad Meithrin Blynyddoedd Cynnar Cymru Cydymaith Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol PACEY
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol sydd â diddordeb.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth Iaith Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.	
Arall	Holl Gyngorwyr Cyngor Sir y Fflint. Cymuned ehangach Penyffordd

ATOTIAD B

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Sir y Fflint i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Pen-y-ffordd o 315 i 375 o ddisgyblion amser llawn.

This report has been prepared by Her Majesty's Inspectors of Education and Training in Wales. Under the terms of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and its associated Code, proposers are required to send consultation documents to Estyn. However, Estyn is not a body which is required to act in accordance with the Code and the Act places no statutory requirements on Estyn in respect of school organisation matters. Therefore, as a body being consulted, Estyn will provide their opinion only on the overall merits of school organisation proposals.

Estyn has considered the educational aspects of the proposal and has produced the following response to the information provided by the proposer.

Crynodeb / Casgliad

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi darparu cynnig sy'n esbonio'n glir ei resymau y tu ôl i'r angen i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Pen-y-ffordd o 315 i 375 o ddisgyblion amser llawn o 1 Medi 2023.

Mae Estyn o'r fam fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol, o ran addysg, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae datblygiadau tai newydd yn yr ardal wedi arwain at gynydd yn niferoedd y disgyblion, ac mae datblygiadau pellach sydd wedi'u cynllunio yn debygol o gynyddu niferoedd ymhellach. Pan gwblhawyd adeilad yr ysgol yn 2019, fe'i dyluniwyd i ystyried ehangu yn y dyfodol. Mae'r estyniadau eisoes wedi cael eu cymeradwyo trwy'r broses gynllunio.

Mae'r cynigiwr wedi nodi dau opsiwn arall, ac un o'r rhain yw parhau â'r sefyllfa bresennol. Mae wedi amlinellu cryfderau a gwendidau'r naill opsiwn a'r llall, ac wedi esbonio'r rhesymeg dros ddewis yr opsiwn ffafriedig.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi bod tarfu posibl i'r ysgol a'r gymuned yn wendid i'r cynnig tra bydd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo. Er bod y cynnig yn nodi y bydd yr awdurdod lleol yn lliniaru hyn trwy gwblhau'r gwaith mwyaf aflonyddgar yn ystod gwyliau ysgol, nid yw'n rhoi awgrym digonol na buddiol i nodi sut bydd y tarfu yn cael ei lliniaru o ddydd i ddydd. Mae'r cynnig yn nodi pum risg prosiect arall o ran yr opsiwn ffafriedig, ac mae ganddo liniariadau rhesymol ar gyfer pob un ohonynt.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'n nodi nad yw'r awdurdod lleol yn credu y bydd y cynnig hwn yn effeithio'n fawr ar drefniadau gan y bydd argaeledd llwybrau cerdded o'r cartref i'r ysgol yn aros yr un fath neu eisoes wedi cael eu gwella, ac mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn byw o fewn pellter cerdded o safle'r ysgol.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cyfeirio at ei uchelgais a'i gamau gweithredu tuag at gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn derbyn na fydd y cynnig hwn yn darparu ar gyfer lleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol.

ATODIAD C




Crynodeb o ymatebion i'r Ffurflen Ymateb Safonol (Smart Survey)

1. Dywedwch sut yr ydych yn gysylltiedig â'r ysgol y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hi				
Dewisiadau:			Canran yr Ymatebion	Cyfanswm yr ymatebion
1	Rhiant/gwarcheidwad/gofalwr	<div style="width: 51.25%; height: 15px; background-color: #0070C0;"></div>	51.25%	41
2	Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad	<div style="width: 12.50%; height: 15px; background-color: #FF8C00;"></div>	12.50%	10
3	Llywodraethwr	<div style="width: 10.00%; height: 15px; background-color: #4CAF50;"></div>	10.00%	8
4	Aelod o Staff	<div style="width: 6.25%; height: 15px; background-color: #A52A2A;"></div>	6.25%	5
5	Aelod o'r Gymuned	<div style="width: 35.00%; height: 15px; background-color: #FFD700;"></div>	35.00%	28
6	Sefydliad e.e. Cyngor Cymuned	<div style="width: 1.25%; height: 15px; background-color: #00CED1;"></div>	1.25%	1
7	Dim cysylltiad	<div style="width: 1.25%; height: 15px; background-color: #800080;"></div>	1.25%	1
8	Arall (manylwch os gwelwch yn dda)	<div style="width: 6.25%; height: 15px; background-color: #DC143C;"></div>	6.25%	5
			Wedi ateb	80
			Heb ateb	2



“Roedd ymatebwyr yn gallu ymateb mewn mwy nag un capasiti Mae hyn yn egluro pam nad yw cyfanswm y cwestiynau a atebwyd yn cyfateb

Sylwadau: Roedd dros hanner yr ymatebion - 64%, gan rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid - presennol a darpar. Roedd aelodau'r gymuned yn cyfrif am ychydig dros draean o'r ymatebion ac roedd 16% gan Llywodraethwyr ac aelodau o staff

2. Os ydych yn gysylltiedig ag ysgol, dywedwch pa un:				
Dewisiadau			Canran Ymatebion	Cyfanswm yr Ymatebion
1	Ysgol Penyffordd	<div style="width: 71.43%; height: 15px; background-color: #0070C0;"></div>	71.43%	55
2	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Ioan Fedyddiwr	<div style="width: 1.30%; height: 15px; background-color: #FF8C00;"></div>	1.30%	1
3	Ysgol Derwen	<div style="width: 1.30%; height: 15px; background-color: #4CAF50;"></div>	1.30%	1


	Dim cysylltiad		
	Arall		
	Ysgol Arall (nodwch pa un):		

Sylwadau Daeth 71% o'r ymatebion gan bobl a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag Ysgol Penyffordd , gyda 3% gan ysgolion cyfagos ac 1% arall gan ysgolion eraill. Nid oedd gan y gweddill unrhyw gysylltiad neu roeddent wedi'u dosbarthu fel 'arall'.

3. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Penyffordd a chynyddu capasiti 3 11 Ysgol Penyffordd o 315 i 375 lle llawn amser cynnydd o 60 lle llawn amser o 1 Medi 2023?				
Dewisiadau			Canran Ymatebion	Cyfanswm yr Ymatebion
1	Ydw		73.17%	60
2	Na		26.83%	22
			Wedi ateb	82
			Heb ateb	0

Sylwadau: Roedd ychydig o dan dri chwarter - 73%, yn cytuno â'r cynnig. O'r rhai hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig roedd 13 yn rhieni/gofalwyr disgyblion presennol yr ysgol ac 8 yn aelodau o'r gymuned. Roedd yr holl ymatebwyr â chysylltiad â'r ysgol, h.y. staff/llywodraethwyr yn cytuno â'r cynnig.

Comparison






4. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi ddweud mwy am pam yr oeddent yn cefnogi neu ddim yn cefnogi'r cynnigion a chafwyd 44 o sylwadau ychwanegol gyda 22 ohonynt yn cytuno â'r cynnig ac 17 yn gwrthwynebu. Cafodd y sylwadau eu grwpio'n themâu gydag enghreifftiau o'r math o sylwadau a gafwyd.

Thema	Nifer	Sylwadau Enghreifftiol
Pam na chafodd y dosbarthiadau ychwanegol hyn eu cynnwys yn y cynlluniau adeiladu gwreiddiol	15	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r nifer presennol o lefydd llawn amser yn rhy isel ac roedd trosolwg y rhai hynny a oedd yn gyfrifol am ailstrwythuro cychwynnol system ysgol y pentref yn wael. Dylai'r ysgol fod wedi'i hadeiladu gyda digon o le i ddiwallu anghenion plant lleol. methu deall pan na chafodd hyn ei wneud pan adeiladwyd yr ysgol newydd ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae hwn yn gynnig heb ei gynllunio na'i ystyried yn ofalus ar y cam hwn nac ar y camau cynllunio blaenorol. Nid yw'n gost effeithiol ehangu'r ysgol ar gyfer cynnydd mor fychan mewn niferoedd disgyblion. Roedd diffyg rhagwelediad ar ran CSyFf gyda'r cynlluniau gwreiddiol, gellid gwario'r arian hwn rywle arall yn y gymuned. Mae'r cais hwn i ymestyn ein hysgol newydd sbon mor fuan ar ôl ei hadeiladu yn ein pentref sy'n tyfu'n gyflym yn dangos diffyg rhagwelediad a chynllunio. Rwy'n cefnogi'r cynnig ond yn herio'r cyfle a wastraffwyd i gynllunio adeilad digon mawr pan adeiladwyd yr ysgol newydd wreiddiol.
Cadarnhaol - creu lle gwir angenrheidiol	14	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n bwysig bod fy mhlant yn mynd i ysgol yn ein pentref. Mae angen mwy o ddosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen. Rwy'n cefnogi'r cynllun Roedd byw yn lleol a methu â chael fy mhlant i mewn i'r ysgol gynradd leol yn siom fawr. Mae lle ychwanegol yn wir angenrheidiol. Mae angen mwy o ddosbarthiadau fesul grŵp blwyddyn yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. All yr estyniad i'r adeilad ddim dod yn ddigon buan.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n ymddangos y bydd angen cynyddu capasiti'r ysgol o ganlyniad i'r cynnydd mewn cartrefi newydd yn y pentref. • Gyda'r tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yn Brook Meadow (a'r sôn am ddefnyddio'r hen ysgol gynradd ar gyfer tai fforddiadwy) mae angen mwy o le yn ysgol gynradd Penyffordd.
Problemau parcio/mannau gollwng plant/mynediad	10	<ul style="list-style-type: none"> • bydd angen lle parcio gan ei bod eisoes yn draed moch adeg danfon neu nôl plant o'r ysgol a bydd yn waeth byth gyda mwy o ddisgyblion. • Nid oes unrhyw le parcio ar hyn o bryd a bydd hyd yn oed yn waeth pan fydd mwy o blant yn mynd i'r ysgol. Mae'r traffig yn beryglus. • Rwy'n byw reit wrth ymyl yr ysgol ac mae'r traffig yn ofnadwy ar y funud ac fe fydd yn waeth wedyn. • Mae'r ffyrdd yn beryglus ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. • Rwy'n meddwl bod angen gosod llinellau melyn dwbl rownd y gornel y tu allan i'r ysgol. • Dylid ystyried lledu'r palmentydd. • Mae yna groesfan o ochr y lawnt fowlio ar draws mynedfa'r ysgol i'r ardal gollwng plant ac yna mae'n rhaid i chi groesi'n ôl drosodd unwaith yr ydych y tu mwn i'r gatiau. Mae hyn yn hurt. • Hyd nes bod digon o le parcio a llefydd gollwng plant ar gael ni ddylid mynd ymlaen â'r cynllun i ehangu'r ysgol.
Tarfau ar ddisgyblion/preswylwyr	7	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylai cynyddu main yr ysgol fod ar draul y disgyblion presennol. • Bydd tarfau ar yr ardal leol heb sôn am beryglon i blant presennol yr ysgol yn bodoli drwy gydol y gwaith o godi'r estyniad. • Rwy'n credu y byddai'r gwaith adeiladu yn anafanteisiol i addysg fy mhlant oherwydd y bydd y gwaith yn tarfau ar addysg yn yr ysgol ac yn tynnu sylw. • Rwy'n poeni y bydd y gwaith yn ymyrryd unwaith eto â mynediad y disgyblion presennol i diroedd yr ysgol a'r ardaloedd awyr agored. • Nid wyf am i waith adeiladu effeithio ymhellach ar ei fywyd ysgol cynnar (mae Covid eisoes wedi tarfau ddigon arno). • Mae'n rhaid i ni gofio bod yr ysgol, staff a disgyblion eisoes wedi wedi bod drwy lawer o newidiadau yn ddiweddar • Rwy'n credu y byddai'r gwaith adeiladu yn anafanteisiol i addysg fy mhlant oherwydd y bydd y gwaith yn tarfau ar addysg yn yr ysgol ac yn tynnu sylw.
Cynyddu maint yr ysgol/pentref	5	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r pentref yn tyfu ac yn tyfu a does gan yr ysgol ddim dewis ond ehangu. Pa bryd fydd digon yn ddigon? • Rwy'n teimlo os yw'r boblogaeth am barhau i gynyddu yna bydd ehangu'r ysgol yn hollbwysig. Byddai ysgol newydd yn ddewis amgen, gan fod ysgolion cynradd yn ffynnu pan maent yn cael eu cadw'n fach. • Mae'r ysgol a'r ardaloedd cyfagos eisoes yn cael trafferth ymdopi â niferoedd mor fawr, dim ond gwneud y problemau hyn yn waeth fydd cynyddu niferoedd ac mae angen rhoi sylw i'r materion hyn gyntaf. • Mae gen i bryder y bydd mwy o ddisgyblion mewn ysgol sy'n bwydo'r ysgol uwchradd o bosibl yn achosi problemau o ran cael lle yno. • Nid yw'n ymddangos chwaith bod unrhyw gysylltiad amlwg â buddsoddiad mewn ysgolion uwchradd wrth i blant symud drwy'r system academaidd.
Maint dosbarthiadau ac argaeledd staff addysgu ac adnoddau	5	<ul style="list-style-type: none"> • Mae maint y dosbarthiadau'n rhy fawr • Nid wyf yn meddwl y dylai dosbarthiadau fynd yn ddim mwy. • Buaswn yn cefnogi hyn dim ond os gellir dangos bod cefnogaeth yn ei lle ar gyfer yr llefydd ychwanegol e.e. digon o

		<p>staff ac adnoddau addysgu yn cynnwys ardaloedd chwarae a chyfleusterau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae addysg yn yr ysgol eisoes yn dioddef oherwydd nad oes digon o athrawon ar gyfer nifer y plant. Cyfnod o sefydlogrwydd nid newid sydd ei angen ar yr ysgol. • Mae ailgymysgu'r blynyddoedd yn tarfu ar y plant • Mae hon eisoes yn ysgol fawr o ystyried oedran y plant y mae'n ei derbyn Wnaiff ehangu ddim ond tynnu'r manteision a ddaw yn sgil maint yr ysgol bresennol
Darpariaeth Amgen	2	<ul style="list-style-type: none"> • Hoffwn ofyn fyddai'n bosibl ystyried defnyddio'r hen ysgol yn Ffordd Penymynydd, Penyffordd ar gyfer plant Derbyn? Mae'r adeilad wedi bod yn wag ers pedair blynedd bellach. Gellid hefyd defnyddio'r adeilad presennol i gefnogi Meithrinfa, wedi'i darparu gan fusnes preifat, a fyddai'n cynhyrchu arian ar gyfer y Cyngor Sir ac yn helpu â chostau rhedeg yr adeilad. • Byddai ysgol newydd yn ddewis amgen, gan fod ysgolion cynradd yn ffynnu pan maent yn cael eu cadw'n fach.
Ymateb BIPBC		<p>Ymateb Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Betsi Cadwaladr i'r cynnig i ehangu Ysgol Penyffordd i greu 60 lle llawn amser ychwanegol o ran: Problemau traffig a llygredd aer posibl Cyfleoedd Teithio Llesol Mynediad i fannau gwyrdd Lle arwylo a bwyta</p> <p>Teithio Llesol - fel rhan o unrhyw gynllun i ehangu ysgol mae'n bwysig ystyried sut y bydd y plant a'r staff ychwanegol y teithio i'r ysgol. Gyda'r cynnig hwn dywedir bod yr effaith o ran traffig, mynediad a pharcio eisoes wedi'u hystyried yn y broses o wneud y cais cynllunio. Bydd y cynnydd posibl mewn traffig yn effeithio ar yr ardal leol o ran llygredd aer. Gellir lliniaru'r risg hwn drwy:</p> <p>Sefydlu mannau gollwng plant dynodedig i ffwrdd oddi wrth yr ysgol lle gall rhieni barcio ac yna cerdded gyda'u plant i'r ysgol, neu y gall plant seiclo neu reidio sgwteri oddi yno i'r ysgol. Bydd annog rhieni i barcio dim ond ychydig yn bellach i ffwrdd o'r ysgol yn lleihau tagfeydd a llygredd aer wrth gathau'r ysgol a bydd hefyd yn gwella diogelwch y ffyrdd. Bydd creu parth gwahardd cerbydau o fewn pellter penodol i'r ysgol yn lleihau llygredd aer a'r perygl o wrthdrawiadau ffyrdd yng nghyffiniau uniongyrchol yr ysgol.</p> <p>Cyfleoedd Teithio Llesol Mae'r atebion uchod yn cynnwys elfen o deithio llesol i'r ysgol. Mae nifer o fanteision i deithio llesol. Mae cerdded/beicio/reidio sgwter i'r ysgol yn helpu i gynyddu gallu plant i ganolbwyntio yn ystod y diwrnod ysgol, yn lleihau lefelau straen ac yn gwella iechyd meddwl. Mae teithio llesol yn ffordd wych o baratoi ar gyfer dysgu. Mae rhoi'r seilwaith i ddisgyblion a staff deithio'n llesol (cerdded/beicio/reidio sgwter) i'r ysgol yn allweddol o ran annog plant i wneud hyn. Mae'n bwysig sicrhau y bydd lle priodol i staff a disgyblion gadw eu beics a'u sgwteri a bod cyfleusterau newid priodol ar gyfer staff sy'n dewis dulliau llesol o deithio i'r gwaith.</p> <p>Mynediad i fannau gwyrdd O ran yr estyniad i'r adeilad ysgol presennol, rhaid sicrhau na fydd yr estyniad yn cael effaith niweidiol ar allu'r ysgol i ddarparu cyfleoedd ar gyfer addysg gorfforol nac ar argaeledd llefydd gwyrdd i blant eu mwynhau a dysgu ynddynt. Lle a chapasiti arlwyto/bwyta</p> <p>Eto o safbwynt yr estyniad i'r ysgol bresennol rhaid sicrhau bod capasiti'r cyfleusterau ategol megis arlwyto'n ddigonol er mwyn sicrhau bod modd paratoi a gweini bwyd iach i blant ar y safle a hefyd bod llefydd bwyta priodol ac addas ar gael ar gyfer y plant a'r athrawon.</p>
Cyfleoedd cysylltiedig â'r iaith Gymraeg	3	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r ymgyrch bresennol i hybu addysg iaith Gymraeg barhau. Bydd cynyddu capasiti a'r angen yn sgil hynny am fwy o athrawon sy'n gallu siarad Gymraeg yn cael effaith ar y gallu i gyflawni'r egwyddor gyntaf hon. • Rwy'n teimlo bod annog y Gymraeg yn bwysig dros ben a bod cynnig cyfleoedd i bobl ymgysylltu mewn dysgu'r iaith a/neu wella eu sgiliau yn fanteisiol i ddisgyblion yr ysgol.

5. Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Atebion a Ddewiswyd		Canran Ymatebion	Cyfanswm yr Ymatebion
1	Cadarnhaol 	18.42%	14
2	Negyddol 	9.21%	7
3	Dim effaith 	72.37%	55
		Wedi ateb	76
		Heb ateb	6


Sylwadau: Roedd y rhan fwyaf o bobl o'r farn na fyddai unrhyw effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd y cynnig hwn yn darparu llefydd ychwanegol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth iaith Gymraeg.

Noder fod yr ymatebion i'r pryderon a godwyd wedi'u hystyried fel rhan o'r ymatebion i'r prif ymgynghoriad yn **Atodiad D**

Atodiad D - Crynodeb o'r Ymatebion i Ymgynghoriad Penyffordd

Cafodd y Cyngor **84** o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ymgynghori safonol ar-lein gan gynnwys ymatebion gan Estyn a Chyngor Disgyblion yr ysgol

Crynodeb o'r ymatebion i'r Ffurflenni Ymateb Safonol



Roedd 73% yn cytuno â'r cynnig; o'r rhai oedd yn anghytuno â'r cynnig roedd 13 yn rhiant/gofalwr i ddisgybl/ddisgyblion presennol yr ysgol, ac roedd 8 yn aelodau o'r gymuned. Roedd yr holl ymatebwyr sy'n gysylltiedig â'r ysgol h.y. Staff/Llywodraethwyr yn cytuno â'r cynnig.

Roedd dros hanner yr ymatebion - 64%, gan rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid presennol a darpar rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid. Roedd ymatebion aelodau o'r gymuned yn cyfrif am ychydig o dan draean o'r holl ymatebion ac roedd 16% o'r ymatebion gan Lywodraethwyr ac aelodau o staff.

Adborth y Cyngor Disgyblion



A fydd yna ddigon o doiledau?

CSyFf: Fel rhan o'r asesiad o'r safle bydd y tîm dylunio yn adolygu'r ddarpariaeth doiledau bresennol ac yn asesu a oes angen rhagor yn unol â'r arweiniad ar gynyddu niferoedd

Fyddwn ni'n colli rhywfaint o'n lle chwarae oherwydd bod yr adeilad newydd yn cael ei godi yno?

CSyFf Bydd yr estyniad yn cael ei adeiladu ar ddarn bach o'r safle presennol ond ni fydd yn cymryd eich lle chwarae dynodedig. Mae'n bwysig bod gan eich ysgol ddigon o ddsbarthiadau er mwyn gallu derbyn mwy o blant o'r gymuned. Byddwn yn lleihau unrhyw darfu ar eich diwrnod ysgol drwy sicrhau bod y tîm adeiladu yn gweithio gyda staff yr ysgol.

Byddem yn hoffi i'r ystafelloedd dosbarth fod yr un fath a'r rhai sydd gennym yn barod gan ein bod yn eu hoffi

CSyFf: Mae'r Cyngor yn falch o glywed fod y disgyblion yn hoffi eu dosbarthiadau. Bydd yr ystafelloedd newydd yr un fath a'r rhai yn yr adeilad presennol a bydd y gwaith yn cael ei wneud gan yr un adeiladwyr er mwyn sicrhau cysondeb.

Ymatebion a sylwadau CSFf ar y sylwadau a gafwyd (gan gynnwys ymateb ffurfiol Estyn)

Yn y ffurflen ymateb safonol ar-lein, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr wneud sylwadau ynghylch pa un a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Gwnaed 20 sylw ychwanegol ac o'r rhai a wnaeth sylwadau roedd 16 yn cytuno â'r cynnig, tra bod 4 yn anghytuno. Mae'r ymatebion wedi'u grwpio yn ôl y sylwadau y derbyniwyd y mwyaf ohonynt, ac i'r categorïau y dylai cyrff perthnasol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau o baratoi a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu wrth eu cymeradwyo/penderfynu arnynt.

1. Adnoddau Addysg a Goblygiadau Ariannol Eraill	Nifer a Dderbyniwyd	Ymateb CSFf
<ul style="list-style-type: none"> Pam na chafodd y dosbarthiadau ychwanegol hyn eu cynnwys yn y cynlluniau adeiladu gwreiddiol er mwyn arbed costau? 	15	Dyluniwyd yr adeilad ysgol newydd i gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd o ehangu yn y dyfodol er mwyn cynyddu capasiti ymhellach ar gyfer 375 disgybl llawn amser. Mae caniatâd cynllunio eisoes wedi'i roi ar gyfer hyn. Ers 2019 mae'r cynnydd mewn galw am le ac argaeledd buddsoddiad cyfalaf o dan Adran 106 - cyfraniadau cynllunio, wedi creu cyfle i wneud rhagor o fuddsoddiad mewn ehangu'r ysgol. Ar adeg codi'r adeilad ysgol newydd nid oedd arian ar gael ar gyfer y dosbarthiadau ychwanegol ac nid oedd y niferoedd yn ddigonol i gyfiawnhau eu hadeiladu.
2. Yr angen am leoedd a'r Effaith ar Hygyrchedd ysgolion		
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r llefydd ychwanegol yn wirioneddol angenrheidiol gan fod y pentref yn tyfu Mae'n bwysig bod plant yn mynd i'r ysgol yn eu pentref eu hunain. Mae angen mwy o le yn y Cyfnod Sylfaen 	14	Mae Cyngor Sir y Fflint yn croesawu'r gefnogaeth y mae'r cynnig wedi'i gael. Rhagwelir y bydd y ddwy ystafell ddosbarth yn cynyddu capasiti yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 gan ymateb i'r galw cynyddol am lefydd yn yr ysgol.
3. Effaith Gymunedol		
<ul style="list-style-type: none"> Problemau parcio/tagfeydd yn y strydoedd cyfagos/mannau gollwng plant Problemau traffig a llygredd aer posibl (Ymatebion BIPBC) 	12	Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod y pryderon am y sefyllfa draffig ger yr ysgol. Roedd gwell mynediad a pharcio eisoes wedi'u cynnwys yn y cynigion dylunio ar gyfer y datblygiad gwreiddiol. Roedd y cynlluniau'n ceisio lleihau effaith parcio cysylltiedig â'r ysgol yn y strydoedd lleol y tu allan i safle'r ysgol. Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r cynllun arfaethedig.

<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd Teithio Llesol • Sefyllfaoedd traffig peryglus • Mynediad i'r ysgol 		<p>Mae llwybrau diogel i'r ysgol a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â'r Timau Cynllunio a Gwasanaethau Stryd. Mae strategaeth deithio gydlynol a chynllun teithio i'r ysgol eisoes yn eu lle i hyrwyddo dewisiadau teithio ecogyfeillgar. Daw'r galw am leoedd o'r ardal gyfagos, felly byddai cynigion yn cynnwys mesurau i wneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Tarfu ar breswylwyr yn ystod y gwaith 	2	<p>Mae CSyFf yn nodi'r pryderon cysylltiedig â'r ffaith y gallai'r gwaith darfu ar ddisgyblion a phreswylwyr. Bydd y cwmni adeiladu'n gweithio mewn partneriaeth ag Uwch Dîm Rheoli'r ysgol i leihau'r tarfu y bydd y gwaith yn ei achosi o ddydd i ddydd hyd yr eithaf.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu maint yr ysgol/pentref • Yr effaith ar yr ysgol uwchradd leol 	5	<p>Mae CSyFf yn nodi'r pryderon cysylltiedig â chynyddu maint y pentref. Mae datblygiadau tai newydd yn yr ardal eisoes wedi arwain at gynydd mewn niferoedd disgyblion a bydd rhagor o dai newydd ar gael yn y pentref yn sgil datblygiadau pellach sydd wedi'u cynllunio yn ardal Penyffordd. Heb ehangu Ysgol Penyffordd mae'n bosibl na fydd modd cynnig lle i blant o ardal Penyffordd yn yr ysgol. Cyhoeddwyd ffigyrau niferoedd disgyblion rhagamcanol yn y ddogfen ymgynghori.</p> <p>Mae cryn fuddsoddiad eisoes wedi'i wneud yn Ysgol Uwchradd Castell Alun y mae Ysgol Penyffordd yn un o'r ysgolion sy'n bwydo iddi.</p>
<p>4. Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg</p>		
<ul style="list-style-type: none"> • Pryderon ynghylch maint dosbarthiadau ac argaeledd staff addysgu ac adnoddau • Tarfu ar addysg disgyblion • Sut fydd y tarfu'n cael ei liniaru o ddydd i ddydd? Ymateb Estyn • Effaith yr estyniad ar fynediad i le gwyrdd (ymateb BIPBC) • Effaith yr estyniad ar le a chapasiti arlwy a bwyta. (Ymateb BIPBC) • Gwybodaeth fwy diweddar i gefnogi'r cynnig, barn y consortiwm rhanbarthol ar ansawdd a'r safonau presennol mewn addysg, gan gynnwys safonau, 	11	<p>Bydd darpariaeth ystafelloedd dosbarth yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig uniongyrchol i ehangu'r ysgol a bydd hyn yn mynd i'r afael â niferoedd disgyblion mewn dosbarthiadau.</p> <p>Mae gan y cyngor raglen foderneiddio ysgolion fawr ar y gweill sy'n golygu fod ganddo brofiad o ddarparu prosiectau adeiladu ar safleoedd ysgolion gweithredol yn llwyddiannus. Bydd unrhyw waith adeiladu'n cael ei reoli'n effeithiol wrth i'r cwricwlwm llawn gael ei ddarparu a bydd diogelwch a safonau diogelu'n cael eu cynnal.</p> <p>Bydd y cwmni adeiladu'n gweithio mewn partneriaeth ag Uwch Dîm Rheoli'r ysgol i leihau'r tarfu y bydd y gwaith yn ei achosi o ddydd i ddydd. Rhagwelir y bydd y gwaith a fyddai'n tarfu fwyaf ar yr ysgol yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol.</p> <p>Byddai'r cynnig i adeiladu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol yn lleihau'r niferoedd sydd yn y dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen a CA2 presennol. Byddai'r ddwy ystafell</p>

<p>Iles ac arweinyddiaeth a rheolaeth. (Ymateb Estyn)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan fod y cynnig yn cynnwys creu dosbarth cyfnod sylfaen a dosbarth CA2 ychwanegol heb unrhyw newidiadau arwyddocaol i arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol mae'n rhesymol disgwyl na fydd unrhyw effaith arwyddocaol ar safonau, lles, addysgu, gofal, cefnogaeth nac arweiniad yn yr ysgol. (Ymateb Estyn) 		<p>ddosbarth newydd yn lleihau nifer cyfartalog y disgyblion yn mhob dosbarth a byddai athro a chymhorthydd addysgu yn y ddau ddosbarth ychwanegol. Bydd offer TGCh ac offer arall yn cael eu cynnwys yn y costau adeiladu, a dylai'r gyllideb ychwanegol ar gyfer yr ysgol ariannu staff ac adnoddau ar gyfer y plant ychwanegol.</p> <p>Mae'r manau allanol o amgylch yr ysgol a ddyluniwyd yn ystod cam un yn diwallu gofynion y bwletin adeiladu. Maent yn cynnwys manau chwarae caled a meddal addas, caeau chwarae a manau cynefin sydd wedi'u datblygu'n dda. Ni fydd yr estyniad yn effeithio ar y ddarpariaeth bresennol.</p> <p>Adeiladwyd yr ysgol newydd yn 2019 gyda chyfleusterau bwyta modern ar gyfer staff a disgyblion.</p> <p>Barn Gwella Ysgolion/Consortium Rhanbarthol: Mae Ysgol Penyffordd yn dal i berfformio'n gryf, gan adeiladu ar ganlyniadau arolwg Estyn 2015.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • A ellid ystyried gwneud defnydd o'r hen ysgol yn ffordd Penymynydd, Penyffordd ar gyfer plant Derbyn? • Byddai ysgol newydd yn ddewis amgen, gan fod ysgolion cynradd yn ffynnu pan maent yn cael eu cadw'n fach. 	2	<p>Mae CSyFf yn nodi'r awgrymiadau am hen safle ysgol plant iau Penyffordd. Rhan o amcanion Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint oedd symud i ffordd oddi wrth adrannau babanod ac adrannau iau ar wahanol safleoedd. Un o amcanion cyfuno'r safleoedd ar wahân ym Mhenyffordd yw bod hyn hefyd yn cysylltu â pholisïau adeiladu Cenedlaethol a Lleol sydd yn blaenoriaethu moderneiddio'r ddarpariaeth addysgu ar draws Cymru fel ei bod yn gweithio'n fwy effeithiol ac effeithlon. Yn y pen-draw nod cyfuno safleoedd ar wahân yw sicrhau bod ein darpariaeth addysgol o safon uchel ac yn gynaliadwy.</p> <p>Mae ysgolion a safleoedd bach yn wynebu llawer o heriau addysgol ac un o'r modelau y mae CSyFf yn eu hargymell ar gyfer ysgolion cynradd yw eu bod yn darparu mynediad un dosbarth neu fwy ac isafswm o 210 o lefydd llawn amser. Mae Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint yn anelu at fod ag ysgolion o'r maint cywir yn y llefydd cywir.</p>
5. Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg		
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r ymdrechion i hybu addysg iaith Gymraeg barhau yr un fath ac mae hybu'r iaith Gymraeg yn hollbwysig 	4	<p>Mae CSyFf yn cytuno y bydd yr ymgyrch i hybu addysg cyfrwng Cymraeg yn aros yr un fath yn y cynnig hwn. Bydd unrhyw ddosbarthiadau ychwanegol yn cael eu staffio'n briodol. Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg. Nid oes unrhyw rwystrau i fynediad at addysg iaith Gymraeg a byddai'r ysgol Cymraeg agosaf yn Glanrafon, yr Wyddgrug</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Mae Cyngor Sir y Fflint yn cyfeirio at ei uchelgeisiau a'i gamau i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn derbyn na fydd y cynnig rhagor o lefydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Ymateb Estyn hwn yn darparu ar gyfer 		<p>Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cael ei asesu ar hyn o bryd gyda golwg ar ganfod atebion priodol i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg.</p>
6. Effaith ar Gydraddoldeb/Gwrthdodi		Dim sylwadau i'w nodi.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y broses hon.